# Papur Briffio Senedd Cymru:
# Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

Diogelwch Trydanol yn Gyntaf

Arbenigwyr diogelwch trydan y DU

Hydref 2020

## 1. Negeseuon Allweddol

- Mae Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn gam olaf angenrheidiol er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi rhent yng Nghymru. Bydd yn cyflwyno sicrwydd deiliadaeth i denantiaid ac yn ei dro bydd yn ategu'r mesurau Eiddo Ffit i Bobl Fyw Ynddo sydd yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) wreiddiol, "Y Ddeddf". **Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yn croesawu'r Bil**.

- **Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yw'r unig Elusen yng Nghymru sy'n gweithio i leihau marwolaethau, tanau ac anafiadau a achosir gan ddamweiniau a digwyddiadau trydanol domestig.**Mae Diogelwch Trydanol yn Gyntaf wedi ymgyrchu er mwyn sicrhau bod tenantiaid yng Nghymru yn cael gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol bob pum mlynedd yn eu cartrefi rhent.

- Mae'r Bil diwygio hwn, ynghyd â gweithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), yn gwneud llawer er mwyn sicrhau diogelwch i bobl yng Nghymru ond mae angen i ni sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu gweddill y Ddeddf cyn gynted â phosibl. Roedd y Ddeddf yn cynnwys y gofyniad am **wiriadau diogelwch trydanol gorfodol ond nid ydynt wedi'u rhoi ar waith eto yng Nghymru.** Yn Lloegr, maent eisoes yn cael eu gweithredu drwy Reoliadau Safonau Diogelwch Trydanol yn Rheoliadau'r Sector Tai Rhent Preifat (Lloegr) 2020.

- **Rydym yn annog Aelodau'r Senedd i gefnogi'r Bil hwn a sicrhau bod y Mesurau Eiddo Ffit i Bobl Fyw Ynddo – gan gynnwys diogelwch deiliadaeth ac agweddau diogelwch critigol megis gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol - yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl er mwyn cadw tenantiaid Cymru'n ddiogel.**

## 2. Cefndir

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) fel rhan o ymrwymiad i denantiaid Cymru i wella eu sicrwydd deiliadaeth.  Prif nod y Bil yw cynyddu'r cyfnod ar ddechrau cyfnod ar osod newydd pan na ellir rhoi hysbysiad landlord i chwe mis. Bydd hefyd yn cynyddu'r isafswm cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i landlord ei roi, wrth geisio dod â chontract i ben lle na thorrwyd ei delerau, o ddau fis i chwe mis.. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn darparu 12 mis o ddiogelwch meddiannaeth i ddeiliaid contract lle nad yw contract wedi'i dorri.

- Er nad yw'r Bil yn cynnwys mesurau pellach o ran Eiddo Ffit i Bobl Fyw Ynddo, bydd y Bil Diwygio yn helpu i ddiogelu tenantiaid sy'n codi pryderon gyda'u landlordiaid ymhellach ar faterion diogelwch – megis trydan. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio bod gan 27,000 o dai yng Nghymru broblemau trydanol peryglus.[i]

- Mae dros 1 filiwn o bobl yng Nghymru yn rhentu eu cartrefi ac ethos Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yw cadw pobl yn ddiogel waeth ble maent yn byw ledled y wlad. Yn dilyn ymgyrchu Diogelwch Trydanol yn Gyntaf, derbyniodd Llywodraeth Cymru'r angen i gyflwyno gwiriadau gorfodol. Gall trydan achosi tanau a gall eich lladd.  **Yn 2018/19 yng Nghymru, achoswyd 62% o danau domestig gan drydan.**

- Mae Lloegr eisoes wedi dechrau gweithredu eu rheoliadau eu hunain ar gyfer y Sector Rhentu Preifat gan gynnwys gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol ond mae tenantiaid yng Nghymru yn dal i aros am yr amddiffyniad hwn.

- Mae llawer o bobl yng Nghymru'n treulio mwy o amser yn eu cartrefi oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a chyfnodau cloi lleol. Felly, mae'r angen i'r cartrefi hynny fod yn drydanol ddiogel beth bynnag fo'u deiliadaeth yn cynyddu.

- Bydd Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub i godi ymwybyddiaeth o fyw'n fwy diogel gyda thrydan ar draws cyfnod gaeaf Cymru 2020/21. Gobeithiwn y bydd gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru cyn diwedd 2021 – ac mae angen i ni sicrhau bod gwleidyddion yn parhau i gydweithio i gyflawni'r nod hwn.

## 3. Ein gofynion i Aelodau Senedd Cymru

- Mae Diogelwch Trydanol yn Gyntaf yn croesawu'r Bil hwn – ond mae angen i'r Llywodraeth weithredu'r rheoliadau ar gyfer diogelwch trydanol o'r 'Ddeddf' er mwyn amddiffyn miliynau o bobl yng Nghymru. **Gofynnwn i Aelodau'r Senedd gefnogi'r Bil hwn a sicrhau nad yw gwiriadau diogelwch trydanol gorfodol yn cael eu gohirio ymhellach ac yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl.**

- Mae angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen lawn ar gyfer gweithredu pan fydd Cyfnodau'r Bil hwn wedi'u cwblhau. **Ni fu amserlen glir o weithredu ar gyfer archwiliadau diogelwch trydanol gorfodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod mwy o bobl agored i niwed bellach yn byw yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol yng Nghymru.[ii] Er y bydd y Ddeddf yn amddiffyn pobl sy'n byw yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol o ran diogelwch trydanol, ni ddylem anghofio perchnogion cartrefi sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu fforddio gwelliannau diogelwch trydanol. **Mae angen i ni sicrhau bod perchnogion cartrefi sy'n agored i niwed yn cael 'Ymweliadau Diogelwch yn y Cartref' gan Gwasanaethau Tân ac Achub a bod y rhain yn darparu'r gallu ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau Gofal a Thrwsio lle mae angen datrys peryglon diogelwch trydanol.**

- Tra'n sicrhau cynnydd y Bil hwn rydym hefyd yn gofyn i Aelodau'r Senedd gefnogi Wythnos Diogelwch Trydanol Cymru, sy'n dechrau ar 30 Tachwedd 2020. Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol sydd â'r nod o hyrwyddo'r defnydd diogel o drydan yng Nghymru - **ac yn y pen draw i ddiogelu bywydau eich etholwyr.**

**Robert Jervis-Gibbons**
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus y DU
Diogelwch Trydanol yn Gyntaf
policy@electricalsafetyfirst.org.uk

---

[i] Diogelwch Trydanol yn Gyntaf - https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/media-centre/press-releases/2019/10/up-to-27-000-households-in-wales-at-extreme-electrical-safety-risk-after-electrical-repair-funding-deemed-woefully-inadequate/
[ii] Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) – 3.6 https://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12310/pri-ld12310%20-w.pdf